# Gêm Fictoraidd



Roedd plant Oes Fictoria'n mwynhau chwarae cuddio, sgipio a gemau eraill. Roedd rhai plant yn hoffi chwarae *Snakes and Ladders* hefyd.


**Snakes and Ladders**

Roedd plant India yn chwarae'r gêm amser maith yn ôl.
*Moksha patamu* oedd enw'r gêm.
Roedd y gêm yn dysgu sut i fyhafio'n dda.

**Sut roedd y gêm yn dysgu sut i fyhafio'n dda?**

Ar rai sgwariau roedd geiriau am fyhafio'n dda. Roedd ysgol ar y sgwariau yma. Roedd plant yn mynd i fyny'r ysgol.

Ar rai sgwariau roedd geiriau am fyhafio'n ddrwg. Roedd neidr ar y sgwariau yma. Roedd plant yn mynd i lawr y neidr.



Roedd pobl Prydain yn chwarae'r gêm yn Oes Fictoria - yn 1892.

Beth wyt ti'n feddwl o'r gêm?

Beth ydy byhafio'n dda heddiw?

- Helpu pobl
- Rhannu
- Siarad yn neis gyda phobl
- Bod yn ffrind da
- Bod yn dda

| | |
|---|---|
| dysgu | to teach |
| byhafio'n dda | to behave well |
| rhai | some |
| gair, geiriau | word, words |
| ysgol, ysgolion | ladder, ladders |
| neidr, nadroedd | snake, snakes |
| rhannu | to share |
| bod | to be |